# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Grŵp Trafnidiaeth Strategol held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mercher, 5ed Chwefror, 2020 at 10.00 am

**PRESENT:** County Councillor D. Dovey (Cadeirydd)

County Councillors: S. Woodhouse, D. Cole, P. Inskip, G. Nelmes, P. Molyneux, B Mahony, R Lemon and W. Jackson

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Roger Hoggins | Pennaeth Gwasanaeth – Prosiectau Strategol (Cyfnod Sefydlog) |
| Richard Cope | Rheolwr Uned Cludiant Teithwyr |
| Christian Schmidt | Swyddog Cynllunio a Pholisi Trafnidiaeth |
| Mark Hand | Pennaeth Llunio Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd |

**ALSO IN ATTENDANCE**

| | |
|---|---|
| Grahame Nelmes | Abergavenny Action 50 Plus |
| Dick Cole | Abergavenny Civic Society |
| Phil Inskip | Severn Tunnel Action Group (STAG) |
| Cllr. Patrick Molyneux | Gloucester CC and Forest of Dean DC |
| Brian Mahony | Friends of 65 Bus |
| Wendy Jackson | Forest Economic Partnership |
| Richard Lemon | Transition Chepstow |

**APOLOGIES FOR ABSENCE:**

| | |
|---|---|
| Ted Hand | Magor Action Group on Rail (MAGOR) |
| Rosemary Corcoran | Friends of the 65 Bus |
| David Flint | Severn Tunnel Action Group (STAG) |
| Paul Turner | Magor Action Group on Rail (MAGOR) |
| County Councillor A. Easson | |

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **Gwasanaethau Bysiau yn Sir Fynwy:**

a) Cyfeillion Bws 65 - Cyflwyniad
Cafodd y Grŵp Trafnidiaeth Strategol gyflwyniad gan Brian Mahony, Cyfeillion Bws 65, i rannu profiadau'r Grŵp a arweiniodd at adfer gwasanaeth Bws 65. Cydnabu'r Cadeirydd waith ac ymroddiad y tîm. Cafodd sleidiau'r cyflwyniad eu cylchredeg yn dilyn y cyfarfod. Gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau yn dilyn y cyflwyniad:

Gofynnodd aelod o'r Grŵp os oedd tystiolaeth o dwf ers adfer y gwasanaeth. Er nad oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael, cafodd peiriannau tocyn newydd eu gosod fydd yn ei gwneud yn bosibl rhannu data teithwyr. Credir bod nifer y teithwyr wedi cynyddu, ond mae bob amser le ar gyfer gwella; bydd gwell cyfle ar gyfer twf os gellir datrys problemau gyda'r amserlen.

Gofynnwyd cwestiwn am gostau a chymorthdaliadau, gan holi os yw hyn ar draul gwasanaethau eraill. Esboniwyd fod y gwasanaeth yn costio £100,000 y flwyddyn. Pe byddai'n cael ei ddileu, byddai'n costio £75,000 i sicrhau gwasanaethau eraill ar gyfer contractau ysgol a gwasanaeth Grass Routes. Mae'r gost net felly yn £25,000 (cyfwerth â £500 yr wythnos).

Cadarnhaodd Rheolwr Uned Cludiant Teithwyr y cafodd y bws newydd ei brynu yn defnyddio grant Llywodraeth Cymru (i annog a datblygu gwasanaethau bws gwledig/cymunedol). Mae'r bws newydd yn un allyriadau isel ac yn cynnig profiad brafiach i deithwyr. Cadarnhawyd y bu nifer yn nhwf teithwyr, gan nodi po fwyaf o deithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth y llai o gymhorthdal sydd ei angen. Cafodd y Grŵp ei atgoffa fod y gwasanaeth yn un "dim er elw" ac yn unig i gynnal ei gostau gweithredu ei hun. Gobeithir gwneud mwy o waith marchnata gyda Chyfeillion Bws 65. Bydd cais am arian seilwaith yn y flwyddyn ariannol nesaf, os yn llwyddiannus, yn galluogi darparu gwell blychau amserlenni a mannau cysgodi.

Croesawodd Aelod o'r Grŵp hefyd lwyddiant Bws 65 gan nodi fod angen i wasanaethau o'r fath fod yn gynaliadwy, yn gyson, yn berthnasol i anghenion cludiant teithwyr ac yn ddibynadwy. Awgrymwyd y gallai ap math-Uber gymryd lle amserlenni papur maes o law.

Gofynnwyd cwestiwn am wasanaethau ar gyfer ymwelwyr a cherddwyr, gan nodi fod llai o wasanaethau ar benwythnosau (hanner gwasanaeth ar ddyddiau Sadwrn a dim gwasanaeth ar ddyddiau Sul). Soniwyd hefyd am yr angen i gysylltu gyda threnau yng Nghas-gwent. Atebwyd fod Cyngor Sir Fynwy wrthi'n comisiynu adolygiad o bob agwedd o drafnidiaeth gyhoeddus yn y sir er mwyn deall problemau yn well. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda Trafnidiaeth Cymru ar ap fydd yn galluogi teithwyr i archebu tocynnau wrth i'r bws symud. Mae'r grŵp Facebook yn ddull effeithlon o ddosbarthu gwybodaeth ond mae angen mwy o aelodau. Yng nghyswllt defnydd apiau yn y dyfodol, dywedwyd fod signal ffonau symudol/4G yn wael yn Nyffryn Gwy felly mae amserlenni papur yn dal yn ddefnyddiol iawn.

Holwyd os byddai'r gwasanaeth yn cael ei roi allan i dendr byth ac awgrymwyd nad yw gwasanaethau mewn ardaloedd eraill mor ddibynadwy pan gânt eu rhedeg gan weithredwyr masnachol ac mewn amgylchiadau llawer mwy cystadleuol. Cadarnhawyd i wasanaeth 65 gael ei gynnig ar gyfer tendr ac mai dim ond un tendr drud iawn a gyflwynwyd. Roedd yn amlwg y gallai Cyngor Sir Fynwy weithredu'r gwasanaeth yn rhatach.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth, Prosiectau Strategol (Cyfnod Penodol) y caiff enghraifft y Bws 65 ei ddefnyddio fel rhan o'r astudiaeth a gomisiynwyd i edrych ar wasanaethau bws cyhoeddus yn y sir yn arbennig yng nghyd-destun blaenoriaeth y Cyngor i wella gwasanaethau bws cyhoeddus gwledig, yn gysylltiedig â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i ostwng y defnydd o geir. Cydnabuwyd fod problem cyfnewidfa gyda bysus, a bysus/trenau. Atgoffwyd y Grŵp fod bob amser ganlyniadau yn effeithio ar wasanaethau eraill pan gaiff newidiadau eu gwneud.

Rhoddwyd gwybodaeth am astudiaeth arfaethedig ar Ddyffryn Gwy i hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus a diogelwch ffyrdd mewn pentrefi.

b) Diddymu'r Severn Express
Cadarnhawyd bod y Severn Express yn dal i redeg gyda thaith ychwanegol yn ystod oriau brig y bore o Gas-gwent, yn cyrraedd canol dinas Bryste am 08:45. Ni fydd y Severn Express yn mynd i Cribbs Causeway neu Aust o hyn ymlaen ond yn lle hynny bydd yn rhedeg yn uniongyrchol o Gas-gwent a Bulwark i Fryste drwy'r M48, M4 a M32..

Bydd gwasanaeth newydd bob awr (X 14) yn cysylltu Cas-gwent a Cribbs Causeway.

b) National Express Coach Services: sut mae hyn yn ffitio mewn gyda thrafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol a sylwadau ar ddileu'r gwasanaethau o Drefynwy. Nododd y Swyddog fod bws National Express (NE)/Megabus yn rhoi cysylltiadau i ardaloedd eraill, meysydd awyr a dinasoedd. Gwneir llawer o ddefnydd o hyb Casnewydd. Cafodd gwasanaeth NE i Drefynwy ei ddileu oherwydd diffyg defnydd. Mae'r Swyddog yn barod i siarad gyda NE ond teimlai ei bod yn annhebyg y byddant yn ailddechrau stopio yn Nhrefynwy. Caiff y pwynt hwn ei gynnwys yn yr adolygiad o drafnidiaeth gyhoeddus. Dywedwyd fod nifer o bobl leol yn defnyddio'r gwasanaeth i fynd i Birmingham felly mae hyn yn golled sylweddol i'r dref. Mae angen edrych ar amserlenni bws lleol gan fod cysylltiadau i drefi eraill yn cael eu colli.

Mynegwyd pryder y gallai gwasanaethau NE o Gas-gwent fod mewn perygl oherwydd tagfeydd traffig yn y dref.

d) Newidiadau gwasanaeth X3
Mynegwyd pryder y cafodd X3 7.25am ei dynnu o'r amserlen. Nid oedd y Swyddog yn ymwybodol o'r angen a chytunwyd holi gyda Stagecoach. Roedd enghreifftiau o'r effaith yn cynnwys myfyrwyr Coleg Gwent yn methu cyrraedd dosbarthiadau ar amser a gweithwyr yn methu cyrraedd eu gwaith. Ystyriwyd yn annerbyniol fod y bws olaf yn ôl i'r Fenni o Gwmbrân am 4.25pm..

Awgrymwyd y gellid gwahodd Stagecoach i roi cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol..

e) Strategaeth Bws Arfaethedig Cyngor Sir Fynwy
Mae strategaeth bws newydd yn cael ei hysgrifennu fydd yn cynnwys data o'r astudiaeth trafnidiaeth gyhoeddus a gomisiynwyd..

**3. <u>Grantiau Trafnidiaeth</u>**

Esboniodd y Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni Trafnidiaeth sut mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu grantiau ar gyfer Teithio Llesol. Bydd y Sir yn derbyn dyraniad creiddiol o £235,000 ar gyfer datblygu cynlluniau a chynlluniau llai y gellir eu gwario ar draws aneddiadau allweddol.

Yn ychwanegol, mae gan yr awdurdod hawl i gyflwyno cynigion am 3 cynllun Teithio Llesol arall. Cynigir cyflwyno cynigion am becynnau o gynlluniau yn gysylltiedig â:

- Tref Cil-y-coed
- Tref Trefynwy
- Canol Tref Brynbuga

Yng nghyswllt y Grant Cronfa Trafnidiaeth Leol, gwahoddwyd cynigion ar gyfer cynlluniau presennol ynghyd ag un cynllun newydd. Mae Cyffordd Trefynwy/Pont Gwy (3ydd Lôn) yn gynllun sy'n parhau y prynwyd deunyddiau ar ei gyfer ac mewn storfa yna ni ddyfarnwyd cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Cyflwynir cynnig arall fel canlyniad. Ceisir cyllid hefyd i gyfrannu tuag at Astudiaeth Trafnidiaeth Cas-gwent.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Grŵp Trafnidiaeth Strategol held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mercher, 5ed Chwefror, 2020 at 10.00 am**

Dyddiad cau y Gronfa Allyriadau Isel Iawn lle gwahoddir cynigion ar gyfer cerbydau trydan (nid yw'r manylion yn benodol ac mae'n aneglur os yw'n cynnwys mannau gwefru) yw 14 Chwefror 2020 a gall fod yn anodd cyflawni hynny. Yn anffodus nid yw'r gronfa a ddefnyddiwyd i brynu Bws 65 yn awr ar gael.

Mae Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cyflwyno cais ar gyfer rhaglen Metro Plus i ymestyn manteision y Metro i ardaloedd nad ydynt yn cael budd o'r ffransais rheilffyrdd.

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cyflwyno cynnig am uwchraddio gorsaf Cyffordd Twnnel Hafren i gynnwys cyllid i gyflwyno estyniad maes parcio, estyn y bont droed, llwybrau mynediad mwy diogel a gwell cyfleusterau i deithwyr. Yn ychwanegol, bydd Cyngor Sir Fynwy yn symud ymlaen gyda'r elfennau sydd ar goll o'r llwybr troed rhwng Gwyndy a Rogiet i hefyd gysylltu gyda phrosiect Cyffordd Twnnel Hafren.

Rhoddwyd gwybodaeth y bydd Metro Cam 2 ac y caiff cynigion eu cyflwyno fel sy'n dilyn ac mewn trefn blaenoriaeth:

- Datblygiad pellach ar Orsaf Llwybr Cerdded Magwyr;
- Cyfnewidfa a Gwelliannau Gorsaf y Fenni;
- Cyfnewidfa a Gwelliannau Gorsaf Cas-gwent;
- Coridor Bws Cas-gwent – Casnewydd;
- Coridor Bws Cas-gwent, Trefynwy a'r Fenni.

Dylai canlyniadau cynigion fod ar gael erbyn 31 Mawrth 2020. Mae'n debygol y dyfernir rhan-gyllid a gall fod yn rhaid ystyried penderfyniadau ar flaenoriaethau maes o law.

Mae hefyd grant rhanbarthol ar gyfer cefnogi gwasanaethau bws a hybu cludiant cymunedol ar gyfer pob cyngor. Cyngor Sir Fynwy yw'r awdurdod arweiniol.

Darperir mwy o wybodaeth pan fydd ar gael. Gofynnwyd cwestiynau fel sy'n dilyn:

- Gofynnwyd os oedd unrhyw gwmpas i ychwanegu elfen traws-ffin at gynigion Teithio Llesol gan gyfeirio at bosibilrwydd agor twnnel Tidenham i Gas-gwent (gall peth arian cyfatebol ar gyfer prosiect traws-ffin fod ar gael). Esboniwyd y caiff cynigion Teithio Llesol eu cyfyngu i dri ac ar hyn o bryd mae Cas-gwent y tu allan i'r tri phrosiect a ddynodwyd. Er y cydnabuwyd fod y rhan fwyaf o'r dyraniad craidd wedi ei ymrwymo, gwnaed nodyn o'r syniad ac awgrymwyd hefyd y gellid ychwanegu hyn at broses ymgysylltu Astudiaeth Heol Cas-gwent.
- Gofynnwyd am ddiweddariad ar y bont Llan-ffwyst arfaethedig. Gwnaed cais hefyd i ystyried trefniadau i alluogi myfyrwyr i seiclo'n ddiogel i Ysgol Brenin Harri XIII ar ôl ei hailddatblygu ac i annog preswylwyr yn gyffredinol i ddefnyddio llwybrau Teithio Llesol. Caiff llwybrau Teithio Llesol ar gyfer yr ysgol newydd eu cyllido o'r dyraniad craidd. Mae'r awdurdod yn ceisio cyllid ar gyfer gwaith datblygu pellach. Nodwyd y penodwyd Swyddog newydd Teithio Llesol. Esboniwyd y bydd yn rhaid adolygu mapiau integredig eleni. Yng nghyswllt Pont Llan-ffwyst, cadarnhawyd fod trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Nid oedd diweddariad ar lwybr y gamlas yng Ngilwern; caiff yr ymholiad hwn ei basio i'r Swyddog Teithio Llesol.
- Gofynnwyd cwestiwn am Orsaf Llwybr Cerdded Magwyr a'r potensial i liniaru'r sefyllfa parcio yn Rogiet gan 30% gan y byddai teithwyr yn medru cerdded i'r orsaf. Dywedwyd y bu'n anodd cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer astudiaeth Grip 3 a holodd os

oes llwybrau eraill ar gyfer arian cyfatebol. Cadarnhawyd mai Gorsaf Magwyr yw'r prif gynllun yng Ngham 2 y Metro ond mae angen partneriaid i weithio gyda ni. Mae Network Rail yn cynnal astudiaeth gwella fframwaith Metro ac mae'r awdurdod wedi ei gwneud yn glir fod gorsaf Magwyr yn brosiect allweddol i'w ystyried. Os rhoddir y prosiect ar y rhestr fer, caiff cyllid datblygu ei ymrwymo.

- Gwnaed sylw pellach am yr angen i ymestyn y maes parcio yng Nghyffordd Twnnel Hafren gan fod problemau sylweddol gyda pharcio, nid yn lleiaf yn yr Ysgol. Mae'r awdurdod yn ceisio darparu maes parcio gyda 150 gofod. Gallai Grand Union Trains gyflwyno'r cynllun hwn ond caiff hefyd ei ychwanegu at astudiaeth fframwaith gwella'r Metro.
- Eglurodd y Swyddog bod y £235,000 ar gyfer Teithio Llesol ar gyfer Sir Fynwy i gyd a'i fod yn ddyraniad creiddiol (wedi'i warantu ar gyfer datblygu cynllun a chynlluniau bach). Mae'r swm hwn ar wahân i gynlluniau sydd ar gyfer cyflwyno cynigion.

**4. <u>Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Rheilffyrdd</u>**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Nichole Sarra, Rheolwr Rhanddeiliaid (Gororau), Trafnidiaeth Cymru a esboniodd fod bellach 5 Rheolwr Rhanddeiliaid gyda'r rôl o annog ymgysylltu rhanddeiliaid ac wedyn roi adborth i'r cynllunwyr. Gwnaed y pwyntiau dilynol:

- Newid amserlen mis Rhagfyr. Cynhelir gweithdy amserlen gyda rhanddeiliaid ym mis Tachwedd. Dilynwyd hyn gydag adroddiad ym mis Ionawr. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal gweithdai ddwywaith y flwyddyn. Cynhelir y nesaf ganol mis Mawrth 2020 gyda golwg ar well cysylltedd a gwasanaethau.
- Cerbydau rheilffyrdd: mae mwyafrif trenau Dosbarth 170 nawr mewn gwasanaeth.
- Gorsafoedd: Mae rhaglen o lanhau dwfn yn mynd rhagddi, i'w chwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. Disgwylir Cynllun Gwella Gorsafoedd 2020 a 2021. Yng nghyswllt cynnig Grand Union Trains (dechrau o bosibl ym mis Mai 2021), gofynnwyd os gall trenau Trafnidiaeth Cymru gysylltu gyda threnau i mewn/allan o Lundain yng Nghyffordd Twnnel Hafren ym mis Mai 2021. Mae bylchau un a dwy awr ar hyn o bryd; bydd gan Grand Union fylchau 2 awr. Bydd problem mewn cysylltiadau oherwydd gwrthdaro yn Cheltenham gyda gwasanaeth presennol GWR. Byddai'r newid hwn yn arbed 50-100 ceir yn dod lawr o Lydney. Caiff y pwyntiau hyn eu trosglwyddo i'r tîm cynllunio trenau.

  Yng nghyswllt cysylltiadau trên/bws yng Nghas-gwent, mynychodd Trafnidiaeth Cymru gyfarfod Trosiant Cas-gwent i glywed am y problemau a chydnabuwyd fod angen dull gweithredu aml-fodd. Mae Trafnidiaeth Cymru yn ymroddedig i edrych ar wasanaethau trên Cas-gwent i ddarparu gwasanaeth bob awr erbyn 2022 gyda gwell cysylltiadau. Awgrymwyd fod Trafnidiaeth Cymru yn rhedeg y gwasanaethau bws <u>a </u>thren; caiff y pwynt hwn ei fwydo'n ôl.

Cododd Aelod fater yr angen am well cysylltiadau o Lydney i Fryste. Soniwyd am drydydd croesiad afon rhwng Lydney a Sharpness i roi cysylltiad rheilffordd i Fryste a Llundain.

Trafodwyd y problemau hygyrchedd gyda Gorsaf y Fenni, gan nodi mai'r signalau yw'r ffactor sy'n achosi oedi. Mae Network Rail, yr Adran Trafnidiaeth a Trafnidiaeth Cymru wedi rhoi sicrwydd fod y cynllun yn mynd yn ei flaen ond mae'r grŵp gweithredu yn gofyn am amserlenni. Esboniwyd fod buddsoddiad sylweddol ar y gweill ar gyfer yr orsaf ac mae'r gwaith wedi dechrau ar storio beiciau, dylunio Mynediad i Bawb a lleoli'r signal. Cytunodd Nicholle i roi diweddariad ar amserlenni yn y cyfarfod nesaf (neu'n gynharach, os yw'r wybodaeth ar gael).

Gofynnwyd cwestiwn am y potensial am lacio'r canllawiau llwybr. Os yw teithwyr yn symud o Gil-y-coed i Fryste gallant fynd i Gasnewydd ac yn ôl i Fryste Parkway i Fryste Templemeads. Ni chaniateir i deithwyr fynd yn ôl o Lydney drwy Gaerloyw neu Cheltenham i Fryste i roi'r

gwasanaeth cyflymaf i Fryste. Byddai caniatáu hyn yn ychwanegu 13 gwasanaeth ychwanegol y dydd rhwng Lydney a Bryste heb unrhyw drenau, gwasanaethau neu stopio ychwanegol. Gofynnwyd i'r Aelod anfon yr wybodaeth berthnasol at Nichole.

Gwnaed pwynt am gostau cymharol, gan fod pobl mewn ardaloedd gwledig yn gorfod talu llawer mwy am deithio gan sôn am docyn £33 o'r Fenni i Ystrad Mynach a thocyn £11 o Gasnewydd i Ystrad Mynach. Y Fenni hefyd sydd â'r cynnydd mwyaf mewn pobl yn defnyddio'r trenau. Atebwyd ei fod yn fater eithaf cymhleth gyda manylion hanesyddol. Mae Trafnidiaeth Cymru yn ymwybodol am y broblem.

Cyfeiriwyd at amserlenni poced (Rhif 3). Dangosir cysylltiadau i Lundain a Bryste i bobl sy'n teithio o Abergwaun, Aberdaugleddau a Phenfro. Dim ond cysylltiadau i Lundain ac nid i Fryste a ddangosir i deithwyr o Lydney, Cas-gwent a Chil-y-coed. Gofynnwyd i'r cysylltiadau gael eu hychwanegu at yr amserlen fel a ddisgrifiwyd.

Cyflwynodd Phil Inskip wybodaeth ar ddefnydd gorsafoedd lleol/ cenedlaethol. Mae hon yn wybodaeth dda wrth ymgyrchu am welliannau. Rhoddwyd gwybodaeth hanesyddol nad yw'r Adran Trafnidiaeth wedi defnyddio'r ystadegau wrth drefnu'r ddwy ffransais diweddaraf ac i benderfynu ar lefel y trenau, gan ganolbwyntio ar dwf a'r canfyddiad o ostyngiad. Caiff ffransais Arriva ei osod ar 0% twf ond mewn gwirionedd bu 7 mlynedd o dwf. Mae defnydd teithwyr o reilffordd Cas-gwent wedi cynyddu gan 130%. Roedd hyn yn achosi problem i Lywodraeth Cymru oherwydd fod y cyllid yn seiliedig ar 0% twf ac felly roedd yn rhaid defnyddio'r grant bloc ar gyfer gwasanaethau trên ychwanegol. Cafodd 54 trên ychwanegol eu hariannu'r ffordd hon i ateb y galw cynyddol. Mae cynghorau wedi buddsoddi'n gyfartal yn cynnwys dau gyngor a brynodd eu trenau eu hunain lle mae Llywodraeth Cymru yn talu am eu gweithrediad.

Nid oedd llinell Cas-gwent wedi ei gwella oherwydd nad oedd wedi'i lleoli lle mae cyngor wedi ariannu gwelliannau rheilffordd. Yn ail, gan nad oedd yn y parth cydgyfeirio, nid oedd yn gymwys am arian cyfatebol yr Undeb Ewropeaidd. Mae nifer y trenau wedi cynyddu ar bob rheilffordd arall. Roedd ffransais Arriva wedi gostwng nifer y trenau heb fod yn torri'r ffransais. Yng nghyswllt ffransais GWR, roedd yr Adran Trafnidiaeth wedi cynnal astudiaeth am reilffyrdd cynaliadwy a thwf. Ystyriwyd fod twf yn 75% ond mae'n 120% yn 2020. Y tair rhan o'r wlad lle disgwylir y twf uchaf yw rhwng Peterborough a Doncaster, Manceinion a Lerpwl a Chyffordd Twnnel Hafren a Bryste. Er iddi gael ei dynodi fel un o'r prif reilffyrdd ar gyfer twf, gwelodd ffransais GWR y trenau Twnnel Hafren i Fryste yn cael eu haneru er blynyddoedd o dwf ac adroddiad yr Adran Trafnidiaeth ei hun. Rhoddodd yr adroddiad swyddogol am breifateiddio y rheswm pam y byddai'r cymorth o £1.65 biliwn i BRT yn 2002 yn gostwng i £1 biliwn ond iddo gael ei gynnal i £5.4 biliwn erbyn 2006. Pan gafodd dau ffransais De Cymru eu gosod, roedd y Trysorlys a'r Adran Trafnidiaeth mewn anawsterau ariannol felly cafodd ffigurau twf eu hanwybyddu.

Diolchodd y Cadeirydd i Phil Inskip am roi'r esboniad i'r Grŵp gan gydnabod ei gyfraniad gwerthfawr iawn ar gyfer strategaeth y dyfodol.

## 5. <u>Materion lleol</u>

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth, Prosiectau Strategol (Cyfnod Penodol) ddiweddariad ar Astudiaeth Trafnidiaeth Cas-gwent, gan nodi fod yr astudiaeth yn brosiect cydweithio traws ffin. Mae Cam 1 Canllawiau Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) wedi ei orffen a chomisiynwyd Arup i gynnal Cam 2 WelTAG. Cynhaliwyd cyfarfod dechreuol. Cododd llawer o argymhellion o WelTAG 1; y tri phrif rai oedd ffordd osgoi, gwelliannau i drafnidiaeth cyhoeddus a chyffordd newydd i'r M48.

Derbyniwyd peth cyllid, neu disgwylir hynny, gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gymreig a Chyngor Swydd Caerloyw. Cafodd yr astudiaeth gyllid (£275,000) ac mae Cyngor Sir Fynwy yn gwarantu rhan ohono. Disgwylir y bydd angen cyllid ar gyfer gwaith astudio ychwanegol wrth i'r astudiaeth fynd rhagddi. Mae amserlen o 12 mis.

Mae'r astudiaethau eraill yn cynnwys:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu astudiaeth ar gylchfan High Beech yng Nghas-gwent yn y flwyddyn ariannol hon gyda'r diben o ostwng tagfeydd traffig.
- Mae Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru wedi comisiynu astudiaeth coridor Cas-gwent/Casnewydd i edrych ar faterion trafnidiaeth a gwelliannau yn ardal De Sir Fynwy/Casnewydd.
- Mae Highways England wedi comisiynu astudiaeth i edrych ar y 2 groesiad ffordd o'r Hafren
- Mae Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru wedi trefnu astudiaeth yn deillio o ganslo o Lwybr Du yr M4.

Cafodd y materion dilynol eu codi gan Bwyllgor Ardal Sir Fynwy:

- Parcio amhriodol yn Ysbyty Nevill Hall: Esboniwyd bod problem gyda'r bysus yn teithio drwy lwybr crwn gorlawn yr ysbyty gydag enghraifft o fod bws yn methu symud am awr oherwydd rhwystr gan geir. Rhoddwyd diweddariad y trefnir cyfarfod gyda swyddogion, Stagecoach a'r Bwrdd Iechyd.
- Problemau iechyd a diogelwch ar gyfer gweithwyr trac yn ymwneud â thoiledau fflysio agored ar y trenau: gofynnwyd i gynrychiolwyr Trafnidiaeth Cymru i fwydo'r wybodaeth yn ôl.
- Ni fydd trenau newydd yn cynnwys darpariaeth toiledau: gofynnwyd i gynrychiolydd Trafnidiaeth Cymru fwydo'r wybodaeth hon yn ôl.
- Problemau parcio yng ngorsaf reilffordd y Fenni. Cadarnhaodd cynrychiolydd Trafnidiaeth Cymru y cafodd y materion hyn eu dynodi eisoes ac y byddant yn cael blaenoriaeth ar gyfer gwella
- Diddymu gwasanaeth bws X3 cynnar yn y bore. Roedd y mater hwn wedi ei godi yn gynharach yn y cyfarfod.
- Nid yw llwybrau bws yn Llanelen yn cael eu graeannu. Cafodd y mater hwn ei drosglwyddo i'r swyddog perthnasol.
- Problem parhaus parthed diffyg safle yn Heol Parc yn y Fenni i gymryd lle safle bws Stryd Frogmore Isaf wedi ei symud fel rhan o'r cynllun pedestraneiddio sydd bellach wedi ei gwblhau. Dywedwyd y cafodd y dyluniad ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Dywedwyd fod angen cwblhau'r prosiect cyn gynted ag sy'n bosibl. Nid oes amserlenni ar gael ond disgwylir penderfyniad ar gyllid erbyn mis Ebrill. Yn ychwanegol, dylid datrys ailgomisiynu safle bws Penypound yn y dyfodol agos.

Yng nghyswllt ailgyflunio cyfarfodydd y Grŵp Trafnidiaeth Strategol, cafwyd adborth gan Bwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy lle awgrymwyd y gallai fod isgrwpiau ar ardaloedd leol e.e. gogledd a de y sir. Awgrymwyd y gellid trefnu cyfarfod ar wahân gyda'r Cadeirydd, y Cynghorydd Woodhouse a'r Pennaeth Gwasanaeth, Prosiectau Strategol (Cyfnod Penodol) i drafod opsiynau.

## 6. <u>Blaengynllun Gwaith</u>

- Diweddariad ar GovTech
- Ymgynghoriad ar Astudiaeth Cas-gwent (WelTAG Cam 2)
- Ailgyflunio cyfarfodydd

- Cyflwr Heol Dyffryn Gwy: rhoddodd Pennaeth Gwasanaeth, Prosiectau Strategol (Cyfnod Penodol) ddiweddariad y caiff gwaith gosod wyneb newydd ei drefnu ar gyfer eleni. Gofynnir am fwy o fanylion a rhoddir adroddiad ar hynny maes o law.
- Adnewyddu arwyddion cyflymder diogelwch yn Larkfield i gylchfan y draffordd: bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar yr ardal fel rhan o astudiaeth cylchfan High Beech
- Seilwaith gorsaf bws yn Nhrefynwy
- Canol tref Trefynwy: mynegwyd pryder y dylid sicrhau cynllun iawn ar gyfer gwyro gwasanaethau bws pan fydd y gwaith arfaethedig yn dechrau.

**7. Cadarnhau nodiadau'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Medi 2019**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol

**8. Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf fel 29ain Ebrill 2020**

**The meeting ended at 12.45 pm**